# CYNGOR CAERDYDD

## CYNGOR: 24 MEDI 2020

---

## CYNNIG CABINET

---

### SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019-20

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

**1.** I gytuno a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-20, cyn cyhoeddi yn unol â Safonau'r Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Cefndir - Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2019-20**

**2.** Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut y dylent fel sefydliadau, ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau'n ymwneud â'r iaith Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015).

**3.** Rhestrir y safonau a osodwyd ar Gyngor Caerdydd yn '*Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Caerdydd – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*. Mae copi o'r safonau, y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, ar gael o:

www.caerdydd.gov.uk/caerdyddddwyieithog

**4.**

**Prif nod y ddeddfwriaeth (safonau) yw sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, gyda'r pwyslais ar gynnig a chofnodi dewis iaith yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y defnyddiwr gwasanaeth neu'r gweithiwr unigol i wneud cais am wybodaeth neu wasanaethau yn y Gymraeg.**

**5.** Mae Safonau'r Gymraeg wedi eu drafftio â'r nod o:

- wella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu cael gan sefydliadau yn Gymraeg;

- gynyddu’r nifer y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau Cymraeg;

- egluro i sefydliadau yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud ar ran y Gymraeg; a

- sicrhau bod lefel priodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a roddir ar sefydliadau yn yr un sectorau.

**6.** Rhoddwyd hysbysiad cydymffurfio i bob awdurdod lleol gan Gomisiynydd y Gymraeg ym Medi 2015, yn rhestru’r safonau a dyddiad cydymffurfio yr oedd disgwyl i sefydliadau gydymffurfio â nhw. Rhoddwyd **171 o safonau** i Gyngor Caerdydd.

**7.** Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i gydymffurfio â Safonau’r Gymraeg, sy’n cynnwys y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gydymffurfio â’r safonau hyn.

**8.** Mae gofyn i bob awdurdod lleol gyhoeddi adroddiad blynyddol pob blwyddyn gan nodi’r wybodaeth ganlynol:

<table>
<tr><th>Cwynion</th></tr>
<tr><td>Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg.</td></tr>
<tr><th>Sgiliau Cymraeg Cyflogeion</th></tr>
<tr><td>Nifer y cyflogeion sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw.</td></tr>
<tr><th>Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg</th></tr>
<tr><td>• Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn.<br><br>• Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei gynnig gennych chi yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm y staff a wnaeth hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.</td></tr>
<tr><th>Nifer y Swyddi a Hysbysebwyd</th></tr>
<tr><td>Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn a gafodd eu categorïo fel swyddi lle'r oedd:<br><br>• sgiliau Cymraeg yn hanfodol;<br><br>• angen dysgu sgiliau Cymraeg wedi penodiad i swydd;<br><br>• sgiliau Cymraeg yn ddymunol; neu<br><br>• dim angen sgiliau Cymraeg.</td></tr>
</table>

9. Gall Comisiynydd y Gymraeg ymchwilio i fethiant i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a gall gymryd camau gorfodi, gan gynnwys gosod cosb sifil, sy'n galw am gynllun gweithredu i gywiro'r methiant neu i gyhoeddi'r methiant.

10. O ganlyniad i'r amgylchiadau hynod a ddaeth yn sgil yr argyfwng Covid 19 nid oedd yn bosib cyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol am gymeradwyaeth y Cabinet cyn y dyddiad cyhoeddi statudol o 30 Mehefin 2020. Serch hynny cyhoeddwyd adroddiad drafft ar y dyddiad cyhoeddi statudol gan gynnwys datganiad bod disgwyl cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Cabinet yn Medi 2020 a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn fuan wedi hynny.

**Cefndir – Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog 2017-22**

11. Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth pum mlynedd erbyn 30 Medi 2016, sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso defnyddio'r iaith yn unol â Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, ***Cymraeg 2050***

Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan:

**Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).**

12. Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi mwy na dyblu gyda ffigyrau'r Cyfrifiad diwethaf yn 2011 yn dangos bod dros 16% o boblogaeth y ddinas yn meddu ar un neu fwy o sgiliau yn yr iaith. Wrth i'r ddinas dyfu, nod y strategaeth hon yw cynyddu nifer a chanran siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yng Nghaerdydd, yn ogystal â chynyddu'r defnydd o'r iaith yn y ddinas.

13. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol dan safon 145 i gynnwys targed yn y strategaeth i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y cyfnod 5 mlynedd dan sylw. Er mwyn cefnogi gweledigaeth

Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn y gwaith o gyflawni'r weledigaeth hon, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg (3+ oed) yng Nghaerdydd 15.9% o 36,735 (Cyfrifiad 2011) i 42,583 (Cyfrifiad 2021). Mae'r targed hwn wedi ei gynnwys yn Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog.

**14.** Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r targed hwn oedd cymhwyso'r ganran o gynnydd sydd ei hangen bob blwyddyn yn nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd miliwn erbyn 2050 (o 562,016 yng Nghyfrifiad 2011). Bydda'r gyfradd twf o 1.5% y flwyddyn, wedi ei chymhwyso at Gaerdydd, yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 42,584 erbyn Cyfrifiad 2021; cynnydd o 15.9% ar ffigwr Cyfrifiad 2011.

**15.** Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn sefydlu ein blaenoriaethau mewn 3 maes strategol:

**1)** Y Teulu, Plant a Phobl Ifanc

**2)** Cymuned a Seilwaith

**3)** Gwasanaethau Cymraeg a'r Gweithle

**16.** Mae cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu a siarad Cymraeg hefyd wrth wraidd y gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau. Mae'r blynyddoedd diweddar wedi gweld cynnydd sylweddol yn nhwf addysg Gymraeg yn y ddinas, gyda chynnydd parhaus yn nifer ein plant a'n pobl ifanc sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y system addysg a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Cyngor yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni geisio cynyddu nifer y plant – a'r rhieni - sy'n cael y cyfle i ddysgu a siarad Cymraeg, a chael cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i gatiau'r ysgol.

**17.** Mae hon yn strategaeth i'r ddinas gyfan, nid i un sefydliad yn unig. Bydd cyflawni'r strategaeth felly yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus, rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg; yn ogystal â'r dinasyddion.

**18.** Atodir Cynllun Gweithredu Caerdydd Ddwyieithog (2019-20) fel **Atodiad 2** ac mae'n amlinellu'r cynnydd â gweithredoedd perthnasol o fewn y flwyddyn adrodd fel rhan o Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg.

## <u>Goblygiadau Ariannol</u>

**19.** Mae'r Adroddiad Blynyddol yn sefydlu cyfres o gamau gweithredu arfaethedig ac argymhellion yn unol â Safonau'r Gymraeg. Os digwydd y bydd unrhyw un o'r camau hyn yn arwain at gostau yna bydd angen neilltuo cyllid o fewn dyraniad cyllidebol presennol y gyfarwyddiaeth unigol perthnasol. Mae'r adroddiad eglurhaol yn tynnu sylw at y cosbau ariannol posib a wynebid o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Bydd raid i unrhyw gosbau ariannol a roir gael eu hysgwyddo o fewn dyraniad cyllidebol cyffredinol y gyfarwyddiaeth briodol.

## Goblygiadau Cyfreithiol

**20.** Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg wrth wneud unrhyw benderfyniadau polisi ac ystyried yr effaith ar y Gymraeg ac mae'r adroddiad yn trafod yr oblygiadau hyn.

**21.** Mae'n rhaid i'r Cyngor ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut y gall y strategaeth hon wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar gyrff cyhoeddus i wireddu 7 nod llesiant Cymru – Cymru sydd yn llewyrchus, yn wydn, yn fwy iach, yn fwy cyfartal, â chymunedau cydlynus, diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu, ac yn gyfrifol ar lwyfan byd.

**22.** Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, mae'r cyngor wedi gosod a chyhoeddi amcanion llesiant a ddyluniwyd i wneud y gorau o'i gyfraniad i gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion llesiant wedi eu rhestru yng Nghynllun Corfforaethol Caerdydd 2019-22. Wrth arfer ei swyddogaethau, mae gofyn i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol i gyrraedd ei amcanion llesiant. Golyga hyn fod angen i'r rhai sy'n penderfynu ystyried sut fydd y penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at gyrraedd yr amcanion llesiant a bod wedi eu bodloni fod pob cam rhesymol wedi ei gymryd tuag at gyrraedd yr amcanion hynny.

**23.** Mae'r ddyletswydd llesiant hefyddyn gofyn bod y Cyngor yn gweithredu yn unol ag 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae'r egwyddor yn mynnu bod y Cyngor yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. O'i roi yn syml, golyga hyn fod yn rhaid i'r rhai yn y Cyngor sydd yn penderfynu ystyried effaith eu penderfyniadau ar bobl fydd yn byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor:

- edrych i'r hir dymor;
- canolbwyntio ar atal trwy ddeall gwreiddiau achos problemau;
- darparu ymagwedd integredig i gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol;
- gweithio'n gydweithredol gydag eraill i ganfod datrysiadau cynaliadwy a rennir; a
- cynnwys pobl o bob rhan o'r gymuned yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt

**24.** Rhaid i'r sawl sy'n penderfynu fod yn fodlon fod y penderfyniad arfaethedig yn unol â'r egwyddorion uchod; a dylid rhoi sylw dyladwy i'r Canllaw Statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

**25.** Rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni ei ddyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector cyhoeddus Cymraeg penodol) – Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus (DCSG).. Yn unol â'r dyletswyddau hyn, rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- hybu cyfle cyfartal a
- meithrin perthnasoedd da ar sail 'nodweddion a ddiogelir'.

Y 'Nodweddion a ddiogelir' yw:

- oed;
- ailbennu rhywedd;
- rhyw;
- hil (gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd);
- anabledd;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- priodas a phartneriaethau sifil;
- cyfeiriadedd rhywiol; a
- crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred).

**<u>Goblygiadau AD</u>**

**26.** Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yn cynnwys cydymffurfio â'r safonau hynny sy'n ymwneud â swyddogaeth y Cyngor fel cyflogwr. Mae'r oblygiadau AD sy'n codi o gymeradwyaeth yr adroddiad yn ymwneud yn bennaf â maes hyfforddi. Mae'r manylion wedi eu nodi yn y Cynllun Gweithredu ac yn cynnwys:

- sicrhau darpariaeth hyfforddi barhaus i gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o'r Cyngor yn unol â Strategaeth Weithlu arfaethedig y Cyngor;
- darparu hyfforddiant Cymraeg i bob cyflogai;
- darparu hyfforddiant arall megis cyrsiau Cymorth Cyntaf ac Iechyd a Diogelwch yn Gymraeg;

- sicrhau fod cyflogeion sy’n gweithio mewn derbynfeydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ac yn gallu cyfarch yn Gymraeg;

- hyrwyddo cyfleoedd swyddi i grwpiau sy’n hyfedr yn y Gymraeg; a

- sicrhau cynnydd yn y nifer o swyddi a nodir yn Gymraeg dymunol.

**CYNNIG CABINET**

Argymhellir i’r Cyngor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg 2019-20 (a atodwyd fel **Atodiad A**) cyn ei gyhoeddi’n ffurfiol yn unol â Safonau’r Gymraeg (Mesur Safonau’r Gymraeg (Cymru) 2011).

**CABINET**
**24 Medi 2020**

*Atodir yr atodiadau canlynol:*

**Atodiad A** Adroddiad Blynyddol Safonau’r Gymraeg 2019-20
**Atodiad 1** Ymchwiliadau Safonau’r Gymraeg 2019/20
**Atodiad 2** Cynllun Gweithredu Caerdydd Ddwyieithog